# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL**
**nos Fawrth Gorffennaf 30 2024**

**C 1. 7.24 Presennol** : Cynghorwyr :- Trefor Jones; Aled Griffith ( Cadeirydd); Gwilym Jones; Carol Hayes; Michael Roberts; Dr Melfyn Edwards
Marian Roberts ( Clerc)

**C 2.7.24 Ymddiheuriadau:**Cynghorwyr :- John Gwynedd Roberts (Is-Gadeirydd); Alwyn Gruffydd

**C 3.7.24. Archwilio'r cyfrifon.** (*Mantolen a dadansoddiad o'r cyfrifon hyd at 22.7.24 sydd yn barod ar gyfer yr archwilydd mewnol ynghlwm)*
Yn ogystal â'r fantolen chwarterol arferol roedd y Clerc wedi paratoi graff i ddangos gwariant hyd yma ar ffurf mwy gweledol. Bydd yn gwneud hyn ar gyfer pob cyfarfod chwarterol o hyn ymlaen er mwyn cymharu lefelau gwariant.
**Penderfynwyd:-** cafwyd y fantolen yn gywir yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**C 4.7.24 Biliau i'w talu – gwariant disgwyliedig**

Eglurodd y Clerc bod anfoneb ychwanegol gan Un Llais Cymru wedi dod i law ers cyhoeddi'r rhaglen. Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | CYNGOR GWYNEDD | Toiledau cyhoeddus 2024-2025 | £8,000.00 |
| 2 | UN LLAIS CYMRU | Tâl aelodaeth 2024-2025 | £951.00 |
| 3 | SNOWDONIA PRINT | Vinyl Medi Harris Bodawen | £201.60 |
| 4 | UN LLAIS CYMRU | Hyfforddiant Cyng. Newydd x 2 | £80.00 |

Tra'n trafod llwyddiant Medi Harris roedd y Clerc wedi paratoi dewis o 5 fersiwn o destun ar gyfer ei ychwanegu at rodd o waith Bill Swan gan y Cyngor Tref i'w gyflwyno iddi yn y dyfodol agos. Cytunwyd ar y testun ond bydd y geiriad yn dibynnu'n union ar ei chanlyniad yn y Gemau Olympaidd ar 1.8.24.

**C 5.7.24 Diweddariad ar drefniadau Nadolig 2024 - nos Wener Tachwedd 29**

Yn dilyn y penderfyniad i greu digwyddiad ar y cyd eleni mae'r Clerc wedi bod mewn trafodaethau efo swyddogion y Ganolfan a'r Port. Mae swyddogion y Ganolfan yn awyddus i gydweithio i gynnal noson ar 29.11.24 ond mae'r Port yn ystyried 3 dyddiad gwahanol ym mis Rhagfyr ar gyfer eu dathliadau nhw. Gwnaed ymholiadau i'r posibilrwydd o logi cylch sglefrio i'w osod yn neuadd y Ganolfan ond oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch bu rhaid rhoi'r gorau i'r syniad yma.

DRAFT

Dyma’r cynlluniau yn fras :-

Y Clerc i :-
- ofyn i Medi Harris ddod i oleuo’r goeden yn y Parc.
- ofyn i Sion Corn a Mrs Corn rannu anrhegion mewn groto yn y Ganolfan ( Ystafell Glaslyn neu Ystafell Groeso).
- ofyn i Dylan Griffiths i ddarparu system P.A. a miwsig yn y Parc
- ofyn i Fand yr Oakeley os oes modd iddynt berfformio yn y Parc

Swyddogion y Ganolfan yn :-
- paratoi’r groto
- dangos ffilm Nadoligaidd yn y neuadd
- gwerthu popcorn / cŵn poeth / diodydd

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30

Marian Roberts
(Clerc)
1.8.24

DRAFFT